## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar ddydd Mercher 27ain Hydref 2004 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr S. Thomas (Cadeirydd), R. Bartley, B. Barton, J. Butterfield, J. Chamberlain Jones, D. Cooper, J.M. Davies, M.Ll. Davies (sylwedydd), S.A. Davies, G.C Evans, H.H. Evans, S. Frobisher, I.M. German, M.A. German, D. Hannam, K.N. Hawkins, T.K. Hodgson, N.J. Hughes, T.R. Hughes, N. Hugh-Jones, D. Jones, H. Jones, M.M. Jones, G.M. Kensler, P.W. Owen, N.P. Roberts, D.A.J. Thomas, S. Thomas J. Thompson-Hill, M.A. Webster, C.H. Williams, E.W. Williams, R.Ll. Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Prif Swyddog Cynllunio (Mawr), Prif Swyddog Cynllunio (Mân), Uwch Swyddog Cefnogi (G. Butler), Swyddog Gweinyddol (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd)

### YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr E.C. Edwards ac E.R. Jones

### 333 MATERION BRYS

Cododd aelod y materion canlynol:

- Angen i'r Mapiau Lleoliad fod yn gliriach
- Tai Fforddiadwy- Copi enghreifftiol o gytundeb 106 i'w anfon at y Cynghorydd J. Butterfield er gwybodaeth
- Cyflwyno adroddiad esboniadol i'r pwyllgor ar ddarparu tai fforddiadwy, gan gynnwys siart syml yn dangos nifer y tai fforddiadwy sydd eu hangen ym mhob achos

### 334 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD***:-*

(a) Cadarnhau'r argymhellion a wnaed gan y Swyddogion, fel y cynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd nawr, a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod fel y bo'r achos, fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn ddarostyngedig i'r amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir nawr:

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 43/2004/0066/PF | Ar ôl llythyr ychwanegol oddi wrth: Gwarchod y Cyhoedd. |

Dymchwel adeilad presennol a man gwerthu ceir ac adeiladu 4 bynglo dormer a newid mynedfa bresennol i gerbydau.
Beach Service Station, Victoria Road, Prestatyn.
Yn amodol ar:
Penderfynwyd **RHOI** caniatâd cynllunio ond yn amodol ar yr ymgeiswyr yn arwyddo ymrwymiad 106 ar ddarpariaeth tai fforddiadwy.
Amod newydd diwygiedig
6. Cyn cychwyn ar y datblygiad a ganiateir trwy hyn ar y safle, ymgymryd ag arolwg o'r pridd a darparu'r canlyniadau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Dylid cwblhau'r arolwg yn unol â chod ymarfer cydnabyddedig megis *Cod Ymarfer Sefydliad Safonau Prydain, Archwilio Safleoedd Halogedig Posibl, BS10175:2001*. Dylid cyflwyno cynllun ar gyfer dat-halogi'r safle a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ysgrifenedig a dylid gweithredu'r cynllun fel y cymeradwywyd yn llawn cyn i neb fyw yn yr uned (breswyl) am y tro cyntaf (i'w ddefnyddio lle mae halogiad pridd yn hysbys neu'n cael ei amau).

43/2004/0186/PF

Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol gan: Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd.
Newidiadau ac estyniadau i siopau a fflatiau i lunio fflatiau ychwanegol ar y lefelau llawr cyntaf ac ail, newidiadau mewn trefniadau parcio a mynediad i gerbydau.
Ffrith Corner, Victoria Road West, Prestatyn.
Penderfynwyd **RHOI** caniatâd cynllunio ond yn amodol ar yr ymgeiswyr yn arwyddo ymrwymiad 106 ar ddarpariaeth tai fforddiadwy.
Amodau Diwygiedig/Ychwanegol
Dileu Amod 2.
6. Ni ddylid defnyddio'r eiddo a ganiateir trwy hyn nes bydd y mannau parcio a nodir ar y cynllun a gymeradwywyd wedi eu harwynebu a dylid eu cadw ar gael i'r pwrpas hwnnw bob amser.
Rheswm: Darparu lle i barcio cerbydau oddi ar y briffordd a sicrhau bod mynd ar yn ôl gan gerbydau i ac o'r briffordd yn cael ei achosi yn angenrheidiol er budd diogelwch traffig.
7. Cyn cychwyn ar unrhyw ddatblygiad ar y safle, dylid cyflwyno cynllun ar gyfer marcio man llwytho/dadlwytho ar y safle a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a dylid cwblhau'r

cynllun cyn cychwyn ar y defnydd a ganiateir trwy hyn.
Rheswm: Darparu ar gyfer llwytho/dadlwytho cerbydau yn glir o'r briffordd, er budd diogelwch traffig.
8. Dylid cyflwyno manylion llawn cau'r fynedfa bresennol oddi ar Geg Y Ffordd ac union leoliad a math y bolardiau ger y mannau parcio 1-6 i a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn ar unrhyw waith ar y safle a dylid ymgymryd â'r gwaith yn unol â'r manylion a gymeradwywyd cyn dechrau defnyddio'r datblygiad. Rheswm: er budd diogelwch priffordd.

43/2004/1173/PO

Datblygu 0.122 hectar o dir trwy adeiladu 1 tŷ annedd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau (cais amlinell).
Tir yn 93 Meliden Road, Prestatyn.

45/2004/0043/PO

Datganodd y Cynghorydd J. Butterfield ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y mater.
Ar ôl ystyried 4 llythyr ychwanegol oddi wrth: Gyngor Tref Y Rhyl; Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd, Rheolwr Rheoli Adeiladu.
Datblygu 0.22 ha o dir trwy rannol-ddymchwel adeiladau presennol ac adeiladu 10 tŷ annedd a newid y fynedfa bresennol i gerbydau (cais amlinell).
Cyn- ganolfan Saab Gogledd Cymru, Morville Garage 27 - 28 Rhodfa'r Dwyrain, Y Rhyl
Siaradwr cyhoeddus o blaid: G. Kenyon
Siaradwr yn erbyn: H. Martin.
Dymunodd yr aelodau canlynol gael cofnodi iddynt bleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio:
B. Barton, N. Hugh-Jones, D.A.J Thomas, S.Thomas, E. Williams ac M. Webster.
Yn amodol ar:
Penderfynwyd **RHOI** caniatâd cynllunio ond yn amodol ar yr ymgeiswyr yn llofnodi ymrwymiad 106 ar dai fforddiadwy a swm cymudedig ar gyfer darparu llain agored.
Amodau Diwygiedig/Ychwanegol
9. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd. Ni chaniateir cychwyn ar y gwaith dymchwel nes bydd;
a) cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei dderbyn ar:

i) Fanylion y trefniadau mynediad arfaethedig gan gynnwys cynigion

ar gyfer cael uchder clirio gofynnol i ganiatáu mynediad i gerbydau adeiladu ac argyfwng i ganol y safle o Rodfa'r Dwyrain, islaw Ystafell Ddawnsio'r Morville Hotel; yn cynnwys manylion y tir presennol ac arfaethedig, lefelau ffyrdd a llwybrau troed, graddiannau mynediad, dulliau draenio, lleoliad colofnau cynnal ac arwyddion rhybuddio cyfyngder uchder.

ii) Y dull arfaethedig o rwystro mynediad i gerbydau i ac o'r safle oddi ar Bath Street

iii) Datganiad Dull ar gyfer symud ymaith unrhyw golofnau sy'n cynnal adeiladau'r Morville Hotel ac unrhyw gynigion ar gyfer unrhyw golofnau cynnal newydd, gan ddangos sut bydd sadrwydd strwythurol yr adeilad yn cael ei sicrhau.

b) cwblhau'r holl waith a gymeradwywyd mewn cysylltiad ag a (i), (ii) (iii) o'r amod hwn.

Dileu Amod 10

Nodyn i'r Ymgeisydd

Fe'ch cynghorir i gysylltu gyda'r Swyddog Achos Rheoli Datblygiad a'r Rheolwr Rheoli Adeiladu i drafod y manylion gofynnol mewn cysylltiad ag Amod 9 o'r caniatâd hwn, cyn cyflwyno unrhyw gynlluniau yn ffurfiol.

45/2004/0469/PS

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth: Gyngor Tref Y Rhyl.

Amrywio Amod Rhif 2 ar Ganiatâd Cynllunio Cyf. 45/2004/13/PF i ganiatáu defnyddio mynedfa bresennol oddi ar Vale Road i wasanaethu swyddfeydd a gweithdy a roddwyd gan y Caniatâd hwnnw.

Tir rhwng 159 a 165 Vale Road, Y Rhyl.

45/2004/1032/PF

Parhau i ddefnyddio rhan o safle ar gyfer adwerthu hyd at 4 cerbyd a chodi ffens derfyn ddur 2 fedr o uchder a llidiart 2 fedr o uchder (rhannol ôl-weithredol).

Coastal Cars, 116 Vale Road, Y Rhyl.

Amod diwygiedig 2(i) – dileu'r gair "dur".

45/2004/1093/PF

Estyniad arfaethedig i dwr pwt o 4 medr i 5.75 medr (1.75 medr cynnydd) i ddarparu twr cyfathrebu dellt, 3 antena a chabinet offer.

| | |
|---|---|
| | Vanguard Communications Plc, Parc Technoleg Vanguard, Ffordd Derwen, Y Rhyl. |
| 47/2004/0675/PF | Adnewyddu Cais Cyf. 47/128/99/PF yn cynnwys trosi hen felin yn dy annedd, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau/cerddwyr a gosod offer trin carthffosiaeth newydd.<br>Grove Mill, Marian Mills, Trelawnyd, Y Rhyl. |
| 47/2004/0738/PF | Trosi ac ymestyn beudy/ffermdy presennol i ffurfio un tŷ annedd, newid y fynedfa bresennol i gerbydau a gosod offer trin carthffosiaeth newydd<br>Pant Ifan Newydd, Holywell Road, Rhuallt, Llanelwy. |
| 01/200/1203/PF | Datganodd y Cynghorydd Gwilym Evans ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr ar gyfer y drafodaeth.<br>Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol gan Gyngor Tref Dinbych.<br>Newid math tai trwy adeiladu ystafelloedd haul yng nghefn y tai annedd arfaethedig.<br>Lleiniau 4 a 5 cyn Gartref Nyrsio Wynne's Park, Brookhouse Road, Dinbych.<br>(Ymatalodd y Cynghorydd N. Hughes rhag pleidleisio). |
| 03/2004/1070/TP | Torri coed mewn coedlan hynafol sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed.<br>Pen y Coed Llangollen.<br>(CYMERADWYWYD) |
| 03/2004/1119/PF | Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth S.J. Miles (trwy e-bost)<br>Adeiladu tŷ annedd a mynedfa newydd i gerbydau.<br>Tir yn cyffinio Waverley Aber Adda, Llangollen.<br>Siaradwr Cyhoeddus yn erbyn – Carole Davies |
| 03/2004/1132/PF | Adeiladu cerflun mewn coedlan. Ffin ddeheuol A539 i'r dwyrain o Langollen |
| 14/2004/0801/PF | Adeiladu tŷ annedd. Tir yn cyffinio Derfel, Cyffylliog, Rhuthun. |
| 16/20024/0776/PF | Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Llanbedr DC.<br>Adeiladu pwll nofio a modurdy, newid defnydd padog yn libart domestig a mynedfa newydd i gerbydau |

Llys y Wennol, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun

16/20024/0681/PO

Datblygu tir trwy adeiladu tŷ annedd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau (cais amlinell).
Tir yn cyffinio The Ranch House, Lon Cae Glas Llanbedr Dyffryn Clwyd Rhuthun.

17/2004/0792/PF

Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru.
Codi adeilad i'w ddefnyddio fel swyddfa/storfa mewn cysylltiad Physgodfa a Fferm Lakehill.
Pysgodfa a Fferm Lakehill, Llandegla, Wrecsam.
Yn amodol ar Amodau Diwygiedig–
1. Dylid cwblhau'r datblygiad a ganiateir trwy hyn erbyn 4ydd Ebrill 2006 fan bellaf.
*Rheswm.* Rhoddir caniatâd i roddi cyfle i ddarparu cyfleusterau parhaol i ddisodli carafán dros dro sydd i'w symud ymaith erbyn y dyddiad a nodwyd ar yr hwyraf.
Mewnddodi'r canlynol fel Amod 2 ac ail-rifo'r gweddill.
2. Ni chaniateir cychwyn ar y datblygiad nes derbynnir cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar y canlynol i gyd:
a) Union leoliad a chyfeiriad yr adeilad, nid fel y dangosir ar y cynlluniau a gyflwynwyd ond yn unol â manylion sy'n dderbyniol i'w awdurdod er mwyn osgoi ymwthiad i'r Ardal Cadwraeth Arbennig ymgeisiol.
b) Cynigion penodol ar gyfer amddiffyn ffawna yn ystod ac ar ôl cyfnod adeiladu'r adeilad a'r tanc septig, ac adfer ffawna ar ôl cwblhau'r adeilad a'r tanc septig.
*Rheswm.* Sicrhau bod mesurau digonol yn cael eu cymryd i amddiffyn yr Ardal Cadwraeth Arbennig a'r llystyfiant yn yr SDdGA.
Dylid newid amod 7 nawr i ddarllen: Mae'r caniatâd hwn yn ymwneud yn unig â darparu'r cyfleusterau a ddangosir yn yr adeilad cymeradwy a'r cynlluniau llawr a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar 9fed Mehefin 2004, mewn cysylltiad â Physgodfa a Fferm Lakehill ac ni chaniateir defnyddio'r adeilad i unrhyw bwrpas arall heb ganiatad ffurfiol yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

| | |
|---|---|
| 22/2004/1022/PF | Adeiladu estyniad a phorth i dy annedd presennol a tho ar ongl uwchben y modurdy presennol<br>Hafod y Coed, Gellifor, Rhuthun |

**GWRTHOD**

| | |
|---|---|
| 43/2004/1172/AD | Cadw arwydd ffasgia wedi ei oleuo'n allanol ac arwydd blwch wedi ei oleuo'n fewnol (cais ôl-weithredol)).<br>16 Stryd Fawr, Prestatyn.<br>Am y rheswm diwygiedig canlynol: ychwanegu….”have an unacceptable impact on visual amenity, in particular”…..<br>Dymunodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones nodi iddo bleidleisio **YN ERBYN** gwrthod caniatâd cynllunio. |
| 02/2004/0993/PF | Cyflwyno cladio teils ceramig i du blaen siop (cais ôl-weithredol).<br>Ruthin Kebab and Burger House 54 Well Street, Rhuthun. |
| 12/2004/0946/PO | Datblygu tir i ddibenion preswyl ac adeilad mynedfa newydd i gerbydau (cais amlinell).<br>Tir yn Bryn Coch, Clawddnewydd, Rhuthun<br>Yn amodol ar ddileu rheswm 2 |

**Er gwaethaf Argymhelliad y Swyddogion, GWRTHOD y cais canlynol am y rheswm a nodir**

| | |
|---|---|
| 43/2004/1091/PF | Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth y Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd.<br>Tir i'r dwyrain o Drivers Limited ac i'r de o Prestatyn Road, Prestatyn.<br>**GWRTHOD** am y rhesymau canlynol:<br>1. Byddai estyniad arfaethedig i flaengwrt y modurdy yn golygu datblygiad annerbyniol i mewn i Rwystr Gwyrdd dynodedig yn groes i bolisïau GEN 3 a GEN 5 Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych, gan osod cynsail annymunol ar gyfer ymwthiadau tebyg mewn mannau eraill.<br>2. Byddai estyniad arfaethedig blaengwrt y modurdy, ffurfio mynedfa newydd i gerbydau ac adleoli mynediad amaethyddol yn debygol o arwain at gynnydd mewn symudiadau traffig i ac o ffordd Dosbarth A brysur yn agos i gyffordd bresennol, gan niweidio diogelwch ffordd, yn groes i bolisi TRA 6 Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych.<br>Penderfynwyd **GWRTHOD** yn groes i argymhellion swyddogion am resymau ymwthiad i'r Rhwystr Gwyrdd ac effaith |

symudiadau cerbyd/mynediad ar ddiogelwch priffordd.

**GOHIRIO am y rhesymau a nodwyd**

46/2004/0678/PC

Datganodd y Cynghorydd J. Chamberlain Jones ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth.
Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth: Asiant yr ymgeisydd.
Cadw tŷ annedd am gyfnod dros dro o bum mlynedd (cais ôl-weithredol).
Rhan o Gaeau AO rhifau 5000 a 6300 ym Mhen-Y-Bryn, Glascoed Road, Llanelwy.
Gohirio i roddi cyfle i asesu gwybodaeth yr asiant ac ail-gyflwyno i gyfarfod mis Tachwedd.

03/2004/0010/PF

Ar ôl ystyried chwe llythyr ychwanegol oddi wrth y Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd; Asiantaeth yr Amgylchedd; Cyngor Tref Llangollen; J. Gwyn-Jones, 12 Maesmawr Road; A & D Skinner, 28 Maesmawr Road a Mr Ffolkes Jones, Arosfa Maesmawr Road.
Adeiladu 14 tŷ annedd a modurdai ac adeilad mynedfeydd newydd a ffordd a fabwysiadwyd a gosod gorsaf bwmpio carthffosiaeth.
Tir yn cyffinio 10 Maesmawr Road, Llangollen.
Gohirio er mwyn ystyried materion Dwr Cymru.

**YMWELIADAU SAFLE**

43/2004/0317/PF

Dymchwel tai allan fferm ac adeilad 6 bwthyn stablau a bloc modurdai a gosod tanc septig newydd (cais ôl-weithredol).
Llys Farm, Meliden Road, Prestatyn.
Ymweliad Safle
Gofynnodd aelod am gael gwahodd y Pensaer Cadwraeth i fynychu'r Ymweliad Safle.

43/2004/1047/PF

Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth: Mr. J. C. Prout, The Croft, Oakhill Lane, Prestatyn.
Adeiladu estyniad dau lawr to ar ongl yng nghefn tŷ annedd.
24 Bryntirion Drive, Prestatyn.
Yn amodol ar ymweliad safle i ystyried yr effaith ar yr eiddo cyffiniol.

01/2004/0219/PF

Datganodd J. Kennedy ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.

| | |
|---|---|
| | Ar ôl ystyried cywiriadau i'r adroddiad.<br>Newid defnydd tir amaethyddol er mwyn cadw ceffylau i ddiben defnydd gan ysgol (Caeau rhif. 8028, 7342 a 6344).<br>Tir yn Ysgol Howells, Dinbych.<br>Yn amodol ar ymweliad safle i ystyried mynediad i draffig, parcio a gor-ddatblygiad posibl. |
| 01/2004/0545/PF | Dymchwel adeilad presennol ac adeiladu 15 fflat i'r henoed, adeiladu mynediad newydd i gerbydau a cherddwyr. Hen safle Sinema, Highgate, Dinbych.<br>Yn amodol ar ymweliad safle i asesu'r effaith ar dai annedd cyffiniol, traffig a materion parcio. |
| 01/2004/715/CA | Dymchwel adeilad Sinema )cais Ardal Gadwraeth), Hen Safle Sinema, Highgate, Dinbych.<br>Yn amodol ar ymweliad safle i asesu'r effaith ar dai annedd cyffiniol, traffig a materion parcio |

**335 MATERION GORFODI**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

i. ENF/2004/00052 – The Best, 16 Stryd Fawr, Prestatyn.

Arddangos arwydd ffasgia goleuedig ac arwydd blwch wedi ei oleuo'n fewnol

Cychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio i sicrhau tynnu'r arwyddion diawdurdod (aros am 2 fis er mwyn caniatáu trafodaethau)

ii. ENF/2004/00053 - Ruthin Kebab and Burger House, 54 Well Street, Rhuthun. Cyflwyno cladio teils ceramig i du blaen y siop.

Cyflwyno hysbysiad Gorfodi i sicrhau tynnu ymaith y cladio teils ceramig diawdurdod ac unrhyw waith arall sydd ei angen i ddatrys y tor-rheol.

iii. ENF/2004/00012 – Rhan Caeau Rhifau AO. 5000 a 6300 at Pen Y Bryn, Glascoed Road, Llanelwy.

Adeiladu tŷ annedd

Gohirio i aros am benderfyniad ar y cais cynllunio.

**336 TWEEDMILL, LLANELWY**

Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn manylu hanes cynllunio diweddar a'r apêl i ddod, a gofyn am gael ystyried penodi Cwnsler i gynorthwyo gyda'r apêl ac enwebu dau Aelod Pwyllgor Cynllunio i gynrychioli'r Cyngor yn yr ymchwiliad apêl.

***PENDERFYNODD** y Pwyllgor:*

- *Cyflogi Cwnsler*
- *Bod y Cynghorydd R Barton yn cynrychioli'r Cyngor ynghyd ag un o'r canlynol: Cadeirydd, Cynigydd neu Eilydd y cynnig i wrthod caniatâd i'r cais cynllunio*

**337 AROLYGU'R CYNLLUN DIRPRWYAETH AR GYFER CEISIADAU CYNLLUNIO**

Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn manylu'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyaeth.

Yn ystod y drafodaeth, nid oedd yr aelodau'n fodlon gyda maes arolygu b – a oedd yn argymell y cawsai aelodau ond ofyn am gael penderfynu cais gan y pwyllgor os oedd yn eu ward hwy.

At hyn, cynigiwyd gan B. Barton ac eiliwyd gan G.C. Evans bod gweithgor yn cael ei sefydlu i ystyried materion yn ymwneud â'r cynllun dirprwyaeth.

***PENDERFYNODD** y pwyllgor:*

*Bod y Cynllun Dirprwyaeth yn cael ei gefnogi o ran a, c a d yn yr adroddiad a sefydlu gweithgor. Cyflwyno'r gefnogaeth hon i'r Cyngor Llawn er mwyn ei gymeradwyo.*

**338 ESBONIAD O RÔL Y CYNLLUN DATBLYGIAD UNEDOL A'R CYNLLUN DATBLYGIAD LLEOL YN SIR DDINBYCH**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mewn ymateb i ymholiadau'r Aelodau ar y CDU a'r CDLl yn Sir Ddinbych.

***PENDERFYNODD** y pwyllgor:*

*Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth*

**339 EITEMAU ER GWYBODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yn hysbysu'r aelodau o eitemau o ddiddordeb, dogfennau allweddol a'u ffynhonnell er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol:

- Cynllun Dirprwyaeth
- Cod Arferion Gorau ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion yn delio gyda cheisiadau cynllunio
- Canllawiau i Baneli Safle
- Siarad Cyhoeddwyd mewn Pwyllgorau

***PENDERFYNODD** y pwyllgor:*

*Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

Croesawodd yr aelodau y fenter hon ac awgrymu bod eitemau yn y dyfodol yn cynnwys Rheoliadau Adeiladu pan yn briodol.

**340 DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn am gymeradwyaeth i ymweliadau safle yn deillio o Eitem Rhif 2 ar y Rhaglen, ac yn hysbysu'r pwyllgor o aelodaeth bresennol y Panel Ymweliadau Safle.

Cynigiwyd dyddiad amgen o 29ain Hydref 2004 a'i eilio. O roddi hyn i bleidlais, fe:

***BENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle a gymeradwywyd ar ddydd Gwener 29ain Hydref 2004.*

**341 RHESTR O GEISIADAU A GAFODD EU TRIN DAN HAWLIAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn manylu ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1ag Medi 2004 – 30ain Medi 2004

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 p.m.

********